LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# RHEOLIAD CYFFREDINOL GWARCHOD DATA (GDPR)

# SUT I WNEUD CAIS AM HAWL I WELD GWYBODAETH A GEDWIR YN LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r nodiadau hyn yn egluro sut y gallwch ddod i wybod pa wybodaeth amdanoch, os cedwir gwybodaeth o'r fath, a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## EICH HAWLIAU

Ac eithrio yn achos rhai eithriadau statudol mae gennych hawl i gael eich hysbysu os oes unrhyw wybodaeth amdanoch yn cael ei chadw yn ogystal â hawl i gael copi o'r wybodaeth honno. Rhoir y wybodaeth honno i chi unwaith y bydd y Swyddog Gwarchod Data wedi ei fodloni/bodloni ynglŷn â'ch hunaniaeth. Nid oes rhaid i'r Llyfrgell roi unrhyw wybodaeth i chi sy'n datgelu hunaniaeth rhywun arall, oni bai bod y person hwnnw'n cytuno. Os tybiwch fod gwybodaeth amdanoch a allai ddatgelu hunaniaeth person arall yn cael ei chadw, fe'ch cynghorir yn gryf i sicrhau cytundeb y person hwnnw i chi gael gweld y wybodaeth ac i amgáu'r cytundeb gyda'ch cais. Os oes unrhyw ddata personol a gedwir amdanoch yn wallus neu'n anghywir, mae gennych hawl i gael y data wedi ei gywiro. Yn ôl Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data 2018 mae gofyn i'r Llyfrgell ddatgelu unrhyw wybodaeth a gedwir amdanoch o fewn mis yn dechrau o'r pryd y cyflwynwyd yr holl fanylion perthnasol. Medrwch dderbyn y wybodaeth ar ffurf ysgrifenedig neu ffurf electronig, a dylid nodi eich dewis ar y ffurflen gais.

## HAWLIAU'R LLYFRGELL

Gall y Llyfrgell wrthod i berson weld gwybodaeth lle mae'r Rheoliad yn caniatáu hynny. Mae'r prif eithriadau yn ymwneud â gwybodaeth at ddibenion iechyd a gwaith cymdeithasol a lle y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debyg o niweidio unrhyw un o'r dibenion hyn.

## TÂL

Ni chodir tâl am gais mynediad testunol, ond gall y Llyfrgell godi tâl rhesymol am gostau gweinyddol i ddarparu'r wybodaeth neu weithredu ar y cais ble mae'r cais hynny yn hollol ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig felly os ydynt yn cael eu hail gyflwyno yn rheolaidd.

**HUNANIAETH**

Er mwyn helpu i brofi pwy ydych chi rhaid anfon dogfen swyddogol yn cynnwys eich enw a'ch llofnod yn ogystal â dogfen yn cadarnhau eich cyfeiriad gyda'ch cais. Rhaid hefyd gynnwys tystiolaeth o'ch hunaniaeth gyda phob cais e.e. trwydded yrru, trwydded deithio, cerdyn adnabod cenedlaethol neu ffoto-drwydded, a llythyr diweddar neu gyfriflen o gwmni gwasanaeth, cwmni cerdyn credyd neu fanc yn dystiolaeth o'ch cyfeiriad. Argymhellir eich bod yn defnyddio gwasanaeth Danfoniad Cofnodedig y post. Os ydych yn wraig briod yn arwyddo'r cais yn eich enw priodasol ond yn gofyn am ddata a gedwir dan eich enw morwynol bydd gofyn i ni gael copi o'ch tystysgrif priodas yn ogystal.

**Dylid dychwelyd y ffurflen gais wedi ei chwblhau ynghyd ac unrhyw ddogfennau angenrheidiol i'r Swyddog Gwarchod Data, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.**

## Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data (GDPR)

## Ffurflen Gais Mynediad Testunol

**Gofynnir am y wybodaeth isod er mwyn cynorthwyo'r Swyddog Gwarchod Data i ddarganfod unrhyw ddata amdanoch sydd ar gael ac i'w fodloni/bodloni ei fod/bod yn gwybod pwy ydych chi.**

DEFNYDDIWCH BRIF LYTHRENNAU OS GWELWCH YN DDA

| **1. Manylion y person sy'n cyflwyno'r cais am wybodaeth** |
|---|
| Enw llawn:<br>Cyfeiriad:<br><br><br>Rhif ffôn:<br>Cyfeiriad e-bost:<br>Rhif ffacs: |

| **2. Ai chi yw gwrthrych y data?** |
|---|
| IE: Os mai chi yw gwrthrych y data anfonwch dystiolaeth o'ch hunaniaeth e.e. trwydded yrru, trwydded deithio, cerdyn adnabod cenedlaethol neu ffoto-drwydded, a bil neu gyfriflen ddiweddar o gwmni gwasanaethau, cwmni cerdyn credyd neu fanc yn dystiolaeth o'ch cyfeiriad<br>(ewch i gwestiwn 5 os gwelwch yn dda) |
| NA: A ydych yn gweithredu ar ran gwrthrych y data gyda'i ganiatâd/chaniatâd ysgrifenedig? Os felly, rhaid amgáu'r caniatâd (ewch i gwestiynau 3 a 4 os gwelwch yn dda) |

| **3. Manylion gwrthrych y data (os yn wahanol i 1)** |
|---|
| Enw llawn:<br>Cyfeiriad:<br><br>Rhif ffôn:<br>Cyfeiriad e-bost:<br>Rhif ffacs: |

| 4. Disgrifiwch eich perthynas â gwrthrych y data sy'n peri eich bod yn cyflwyno'r cais hwn am wybodaeth ar ei ran, os gwelwch yn dda |
| --- |
| |

| 5. Disgrifiwch y wybodaeth a geisiwch ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall, os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddod o hyd i'r wybodaeth yr ydych ei hangen |
| --- |
| |

| **DATGANIAD: I'w gwblhau gan bob ymgeisydd. Sylwer y gall unrhyw ymdrech i gamarwain achosi i chi gael eich erlyn** |
| --- |
| Yr wyf i ……………………………………………………….yn tystio fy mod wedi darllen a deall y canllawiau a bod y wybodaeth a roir ar y ffurflen gais hon i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn wir. Deallaf ei bod yn angenrheidiol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gadarnhau fy hunaniaeth/hunaniaeth gwrthrych y data, ac y gall bod gofyn sicrhau gwybodaeth fanylach er mwyn darganfod y data personol cywir.<br><br>Llofnod: ……………………………………………………….<br>Dyddiad: ……………………………………………………..<br><br>Sylwer: Ni fydd y cyfnod o fis sydd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru i ymateb i'r cais yn dechrau hyd nes bydd y Llyfrgell wedi ei bodloni ar y materion hyn. |

Dychwelwch y ffurflen ar ôl ei chwblhau os gwelwch yn dda, at:

Y Swyddog Gwarchod Data, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU

Dogfennau a ddylai eu cynnwys gyda'r cais:

- Tystiolaeth o'ch hunaniaeth a phrawf o'ch cyfeiriad
- Tystiolaeth o hunaniaeth gwrthrych y data (os yn wahanol i'r uchod)
- Awdurdodiad gan wrthrych y data i weithredu ar ei ran/rhan (os yn berthnasol)